Ysgol Iolo Morganwg

Hwyl iddynt oll wrth lwyddo

Llawlyfr 2009-2010

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

Cyfeiriad: Ysgol Iolo Morganwg
Broadway
Y Bontfaen CF71 7ER
Ffôn: 01446 772358
e-bost: YIoloMorganwg@valeofglamorgan.gov.uk
www.ysgoliolomorganwg.co.uk

Croeso cynnes i chi. Rydym ni, staff, llywodraethwyr, disgyblion a rhieni Ysgol Iolo am eich llongyfarch ar ddewis ein hysgol ac fe wnawn addo y caiff eich plentyn a chithau fel teulu fudd mawr o'ch amser gyda ni.

Beth sydd gan Ysgol Iolo i'w gynnig?

Mae Ysgol Iolo yn ysgol fach gymunedol o fewn y sector gwladol. Mae gennym dros 150 o blant, gyda chyfartaledd y grwpiau mewn blwyddyn yn 22. Rydym yn canolbwyntio ein hariannu ar ddarparu cymaint o swyddi dysgu ag sy'n bosib er mwyn i'n plant gael eu dysgu yn y grwpiau bychan hynny am y cyfnod hwyaf posibl. Daw'r staff i adnabod gwir gymeriad y plant yn gyflym lawn a vice versa ac mae hyn yn meithrin yr ymdeimlad cryf o gymuned sy'n perthyn i'r ysgol.

Caiff ein plant eu haddysgu drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, gyda Saesneg yn cael ei chyflwyno ym mlwyddyn 3 sy'n galluogi'r plant i fod yn gwbl ddwyieithog mewn Cymraeg a Saesneg, ac yn barod i'w trosglwyddo i'r Ysgol Gyfun cyfrwng Cymraeg. Saesneg yw iaith gyntaf mwyafrif ein disgyblion; fodd bynnag mae yna amryw ffordd y gall y rhieni Di-Gymraeg annog a chefnogi addysg eu plant ac, yn sgil hynny, i ddod ar draws y diwylliant cyfoethog ac amrywiol sy'n gysylltiedig â'r iaith Gymraeg. Profodd ymchwil diweddar fod manteision dwyieithrwydd yn niferus a'u bod yn ymestyn yn ehangach o lawer na datblygiad ieithyddol plentyn yn unig.

Ein nôd yw darparu profiadau sy'n ysbrydoledig a chytbwys er mwyn i bob plentyn ddatblygu a chyflawni ei botensial unigol, gan ddiogelu ein polisi o gyfle cyfartal i bob disgybl. Rydym yn annog ein plant i fod yn hyderus, yn gyfrifol, yn ystyrlon o aelodau eraill yr ysgol a'r gymuned ehangach. Rydym yn gwerthfawrogi ac yn awyddus i ddatblygu eu sgiliau a'u nodweddion amrywiol gan greu unigolion crwn, yn ogystal â chyflawni safonau addysgol sy'n gyson uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Disgwyliwn i'n hathrawon, rhieni a disgyblion gytuno ar ein Cytundeb Cartref-Ysgol blynyddol, fel sy'n statudol angenrheidiol; fe welir enghraifft ohono yn y llyfryn hwn.

Gwnawn bob ymdrech i sicrhau bod y llawlyfr yn gywir; fodd bynnag mae'n bosib y gwnaiff rhai manylion newid yn ystod y flwyddyn ysgol.

Staff

ATHRAWON

Mr Dylan Evans	Pennaeth
Mrs W Farleigh	Dirprwy Bennaeth
Mrs. N. Saunders	
Mrs M. Jones	Arweinydd y Cyfnod Sylfaen
Mr. A. Roberts	
Mrs. C. Brain	
Mrs. N. Tough	
Mrs. C. Thomas	
Mrs. S. Tudur	

Mrs C Beames	Cynorthwy-ydd
Mrs M Burns	Cynorthwy-ydd
Mrs. A Kaye	Cynorthwy-ydd
Mrs. R Blackmore	Cynorthwy-ydd
Mrs. R.James	Cynorthwy-ydd
Miss L. Ringwood	Cynorthwy-ydd
Miss.S. Roberts	Cynorthwy-ydd
Mrs. D. Lewis	Cynorthwy-ydd
Miss. C. Thomas	Cynorthwy-ydd
Mrs N Davies	Ysgrifenyddes
Mr. D. Lewis	Gofalwr
Mrs W Thorne	Glanhawraig
Mrs.D. Painter	Glanhawraig

STAFF Y GEGIN

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

Agorwyd yr ysgol yn 1979, wedi cyfnod fel Uned mewn ysgol leol cyfrwng Saesneg. Roedd tua 70 o blant ar y gofrestr ar y pryd. Dros y blynyddoedd fe dyfodd yn dawel ac mae dros 150 o ddisgyblion bellach, wedi eu lleoli mewn adeilad carreg braf a fu'n gartref i ysgol Gynradd y Bontfaen yn y 19eg a'r 20ed ganrif.

Rydym wedi ein lleoli ar gyrion y Bontfaen, ond yn gwasanaethu'r Fro yn gyfan. Daw'r disgyblion o ardaloedd rhwng Pen-y-bont yn y gorllewin, a Chaerdydd a'r Barri yn y dwyrain. Mae'n cynnwys trefi Y Bontfaen a Llanilltud Fawr, y pentrefi mwy fel Sain Tathan a nifer o'r pentrefi bach sy'n britho'r Fro wledig.

Ni yw unig ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yr ardal. Rydym yn rhan o batrwm o barhad addysgol - mae nifer o'r plant yn mynychu Cylch Meithrin cyn ymuno â ni ac wrth iddynt gyrraedd 11 oed yn symud ymlaen at Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Morgannwg. Rydym yn hynod o falch o'r gair da a gawn am ein cynddisgyblion yn yr ysgol uwchradd. Dywedir eu bod yn flaenllaw ac yn llwyddiannus ymhob maes gan gynnwys holl weithgareddau allgyrsiol yr ysgol sy'n adlewyrchu'r cwricwlwm eang a gynigir iddynt yn Ysgol lolo.

Rydym yn annog ein disgyblion i fod yn aelodau o'r Urdd ac i gymryd rhan yn y gweithgareddau a'r ymweliadau sy'n gysylltiedig â'r mudiad. Rydym yn cystadlu yn yr Eisteddfodau ar bob lefel o'r ysgol i'r Genedlaethol. Mae gennym dimau ar gyfer chwaraeon - pêl-rwyd, pêl-droed, rygbi, hoci, nofio, athletau a dawnsio gwerin. Mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol ac elusennol, mewn rhaglenni teledu a digwyddiadau sydd wedi cael cefnogaeth asiantaethau allanol.

Rydym yn hynod falch ein bod yn aelodau gweithredol a bywiog o'r gymuned - y Gymuned Gymreig a'r Gymuned Saesneg ei hiaith. Dyma sy'n allweddol i ni wrth i ni ddarparu'r dechrau gorau posib i addysg a bywyd cymdeithasol ein disgyblion.

GWYLIAU YSGOL 2009/2010

Tymor	Dechrau	Hanner Tymor		Diwedd	Nifer o Ddiwrnodau Ysgol
		Dechrau	Diwedd		
Hydref 2009	Dydd Llun 1 Medi 2009	Dydd Llun 26 Hydref 2009	Dydd Gwener 30 Tachwedd 2009	Dydd Gwener 18 Rhagfyr 2009	74
Gwanwyn 2010	Dydd Llun 4 Ionawr 2010	Dydd Llun 15 Chwefror 2010	Dydd Gwener 19 Chwefror 2010	Dydd Gwener 26 Ebrill 2010	55
Haf 2010	Dydd Llun 12 Ebrilll 2010	Dydd Llun 31 Mai 2010	Dydd Gwener 4 Mehefin 2010	*Dydd Mawrth 20 Gorffennaf 2010	66
				Cyfanswm	195

Dynodwyd **Dydd Mawrth 1 Medi 2009 a *Dydd Llun 19 Gorffennaf a Dydd Mawrth 20 Gorffennaf 2009** yn ddiwrnodau INSET ar gyfer **pob** Ysgol a Gynhelir gan yr AALl. Yr ysgolion unigol fydd yn penderfynu dyddiadau'r tri diwrnod INSET sy'n weddill.
***Bwriedir cynnal diwrnod INSET ar Ddydd Llun 19 Gorffennaf a Dydd Mawrth 20 Gorffennaf 2010 neu ar ddiwrnod arall i'w benderfynu gan yr ysgolion unigol ar ôl ymgynghori gyda'r staff, er enghraifft ar y penwythnos, yn ystod gwyliau sydd eisoes yn bod neu ar ffurf sesiynau gyda'r hwyr.**

Bydd pob ysgol ar gau ar **Ddydd Llun 3 Mai 2010** ar gyfer Gŵyl Calan Mai.

Dyddiadau Arwyddocaol:
Y Nadolig: Dydd Gwener, 25 Rhagfyr 2009
Dydd Gwener y Groglith: 2 Ebrill 2010
Dydd Llun y Pasg: 5 April 2010
Gwyliau'r Banc Mis Mai: Dydd Llun 3 Mai 2010 a Dydd Llun 25 Mai

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

Trefn y Dydd

Mae'r Ysgol yn cychwyn am 8.55 am. Wedi cyrraedd yr Ysgol, fe fydd y Pennaeth neu'r Dirprwy yn croesawu'r plant a disgwylir i bob disgybl aros ar y lard nes i'r Athrawon eu hebrwng i mewn ar ganiad y gloch.

Yn ystod y bore bydd cyfnod o Gynulliad Torfol, ac egwyl o chwarter awr. Ar yr iard flaen fydd y Adran Iau yn chwarae, gyda'r Babanod ar yr iard gefn er mwyn diogelwch. Mae amser cinio am 12.00 i'r Plant Bach ac am 12.15 i'r Adran Iau. Bydd Cynorthwywyr Cinio yn gofalu am y plant yn ystod y cyfnod yma. Pan fydd cinio'n barod, bydd y plant yn cael eu hebrwng i'r Ffreutur i fwyta. Ni chaiff unrhyw blentyn adael yno ond ar gyfarwyddyd Cynorthwy-ydd.

Wedi cyfnod chwarae arall bydd sesiwn y prynhawn yn dechrau am 1.15. Ceir egwyl arall o 10 munud yn ystod y prynhawn. Os yw'r tywydd yn caniatáu, rhaid i bob un fod allan ar y buarth yn ystod y cyfnodau chwarae. Os yw'r tywydd yn eithafol, bydd y plant yn aros mewn - y rhai bach yn y neuadd, y rhai hyn yn eu dosbarthiadau.

Daw'r diwrnod ysgol i ben am 3.25. Bryd hynny daw'r plant i'w mannau ymgasglu ar yr iard flaen. Bydd y rhesi bysiau yn cael eu hanfon yn eu tro. Bydd y rhai sy'n cael eu casglu yn aros gyda'r athrawes with y giât i'r ardd, nes ei bod hi'n barod i ryddhau plentyn i ofal yr oedolyn perthnasol. Dylai'r rhai sy'n casglu plant aros yn yr ardal a neilltuwyd os gwelwch yn dda, gan sicrhau nad ydynt yn achosi rhwystr naill ai ar y palmant, nac ar yr heol with barcio.

Ar brynhawn gwlyb, bydd plant y bysiau'n ymgasglu yn y cyntedd ac mewn dosbarthiadau cyn eu rhyddhau. Daw'r rhai eraill at ddrws y Plant Bach a phan wel yr Athrawes fod rhiant yno, bydd hi'n rhyddhau'r plentyn. Rhaid cadw at y trefniant hwn er mwyn diogelwch pawb.

Llysoedd

Mae disgyblion yr ysgol yn perthyn i un o 4 llys sef Bran, Pwyll, Math, Llŷr. Enwau Cymraeg a ddewiswyd o'r Mabinogi ydy'r rhain. Pan ddaw plentyn i'r ysgol gosodir y plentyn mewn un o'r llysoedd uchod. Mae lliwiau arbennig ar gyfer pob llys sef Bran - gwyrdd; Pwyll - coch; Math - glas; Llŷr - melyn. Gwerthir crysau-T yn lliwiau'r llysoedd yn yr ysgol.

Gwisg Ysgol

Mae gan yr ysgol wisg arbennig :-

- crys chwys/cardigan - glas tywyll
- crys 'polo' - glas golau
- sgert/ pinaffor/ trowsus - glas tywyll
- esgidiau
    - ffrog haf- glas golau (os dymunir) Gwerthir crysau chwys, cardiganau, crysau-T a chrysau 'polo', gyda logo'r ysgol arnynt, yn yr ysgol.

Gofynnir yn garedig am eich cydweithrediad i gadw'r safon

a osodwyd eisoes.

DYLID SICRHAU BOD ENW'R DISGYBL AR BOB DILLEDYN, OS GWELWCH YN DDA.

Cinio Ysgol

Paratown y bwyd yn yr ysgol ac mae'r plant with eu bodd gyda'r prydiau. Mae gan ein hysgol ni un o'r canrannau uchaf o blant yn dewis bwyta cinio ysgol yn y Fro. Mae'r prydiau o ansawdd da a maethlon a gellir cynnwys prydau llysieuol neu ddeiet arbennig. Cesglir arian cinio gan y clerc ar fore Llun yn unig. Byddai'r arian cywir, mewn amlen, yn hwyluso'r broses. Mae'n bosib darparu hefyd ar gyfer anghenion llysieuol neu ddeiet feddygol.

Ymweliadau Rhieni a Darpar Rieni a'r Ysgol

Mae croeso i chi ddod i'r ysgol – ond ceisiwch ffonio'n gyntaf! Mae hyn yn bwysig oherwydd efallai ni fydd unrhywun yn y swyddfa ar adegau.

Wrth i chi gyrraedd, os gwelwch yn dda a wnewch chi gyflwyno'ch hun i'r 'Pennaeth neu'r Dirprwy- ac eto wrth ymadael. Mae hyn er mwyn sicrhau diogelwch pob un ar y safle mewn argyfwng. Gofynnwn yn garedig i ch
hoffech gyfarfod ag aelod o'r athrawon.

Trefnir Nosweithiau Rhieni yn dymhorol pan fydd hi'n bosib trafod gwaith eich plentyn gyda'r athro neu'r athrawes.

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

Llywodraethwyr yr Ysgol

ENW	*CYNRYCHIOLI*
Mrs.G. Baty	ALl
Mr A. Huw (Cad.)	Cyfetholedig
Mr. A Cairns	AALl
Mr.G Jones	Rhiant
Mrs S.J Davies	Cyfetholedig
Mrs N Davies	Staff cynorthwyol
Mr A Lewis (Is-gad.)	Rhiant
Dr. T.Thomas	Rhiant
Mrs N.Tough	Athrawon
Mrs E.Pritchard-Jones	Cyfetholedig
Cllr T Hunter Jarvie	AALl
Mr M. Burne	Rhiant
Mr. G. Evans	AALl
Mrs. W. Farleigh	Athrawon
Mr D W Evans	Pennaeth
Mr. O. Saunders-Jones	Cyfetholedig
Mrs. E. Long	Rhiant

Dylid cyfeirio unrhyw ohebiaeth at y Clerc neu'r Gadair drwy'r ysgol.

Cymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau (CRAFf)

Mae addysg plant yn dibynnu ar bartneriaeth iachus rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae Ysgol Iolo Morganwg yn ddyledus i gnewyllyn o rieni a frwydrodd yn ddi-ffael am addysg Gymraeg yn y Bontfaen.

Mae'r ysgol wedi elwa erioed o gefnogaeth y rhieni, ac aelodau eraill y teulu a chyfeillion, am help ar gyfer cefnogaeth dysgu, adnoddau a chodi arian. Mae digwyddiadau'r GRhA ar gyfer teuluoedd neu oedolion ac maent wedi cynnwys parti Nadolig, y ras Hwyaid Flynyddol, Ffair Haf, abseil noddedig, Dawns Haf, Gwyl Sineaidd... rydym yn gwerthu nwyddau Nadolig, trefnu cynllun tocynnau Tesco, a chynllun cyfamodi/rhodd cymorth - byddem yn croesawu eich arian, amser, arbenigedd neu unrhyw syniadau newydd.

Mae cronfa'r GRhA wedi talu am biano newydd i'r ysgol, celfi a llyfrau i'r llyfrgell, cyfrifiaduron, mireinio'r muriau, adnewyddu tŷ'r ysgol ac addasu adeilad yr ysgol i gynnig gwell lleoliad dysgu. Yn y pendraw y disgyblion - gan gynnwys EICH PLENTYN chi - sy'n elwa o weithgarwch a gwaith caled y GRAFf felly ymunwch gyda ni da chi!!

Presenoldeb
YR YSGOL I GYD
Cyfnod:2008-2009.

Tymor yr Hydref	Tymor y Gwanwyn	Tymor yr Haf
93.8%	**95.6%**	**95.5%**

Absenoldeb

Er mwyn cydymffurfio a gofynion y Ddeddf, rhaid cadw cofnod o bob presenoldeb. Gall disgybl dderbyn marc os yw'n cyrraedd cyn 9.30 am. Ar ôl hynny, yn swyddogol, mae'n absennol, ac yn colli marc am y sesiwn. Bydd achosion o absenoldebau cyson yn awr yn cael eu hymchwilio gan yr Adran Les. Ond os daw neges i egluro'r absenoldeb, gellir hawlio'r marc yn ôl. Felly mae'n holl bwysig eich bod yn dweud wrthym yn swyddogol cyn gynted [illegible] eich plentyn yn dost neu'n colli ysgol am unrhyw reswm.

Hefyd, os yw plentyn yn cyrraedd yn hwyr, dylid cyflwyno'r plentyn yna at yr ysgrifenyddes er mwy[illegible] gofrestr. Dylid hefyd gofyn am ganiatâd swyddogol y Llywodraethwyr os yw disgybl i golli ysgol i fynd ar wyliau.

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

Cyfle Cyfartal

Nid ydym yn gwahaniaethu yn erbyn unrhywun, yn staff neu'n ddisgyblion, ar sail rhyw, hil, lliw, croen, anabledd, crefydd, cenedl, tras ethnig neu'n genedlaethol. Cedwir polisi Cyfle Cyfartal yn yr ysgol.

Mynediad

Fel arfer, bydd disgyblion newydd yn cychwyn yn y Derbyn ym mis Medi'r flwyddyn ysgol y cyrhaeddant eu pumed pen-blwydd, neu, i'r Meithrin yn bedair oed. Y disgwyl yw eu bod wedi mynychu Cylch Meithrin cyn hynny. Mae amodau i fynediad hwyr:

- yn ystod y flwyddyn Derbyn, neu blentyn sydd wedi bod mewn addysg Gymraeg eisoes, yn benderfyniad y Pennaeth
- rhaid i unrhyw gais arall fynd gerbron y Llywodraethwyr a'r AALl.

Anghenion Addysgol Arbennig

Darperir ar gyfer anghenion y mwyafrif o'r plant o fewn y dosbarthiadau bach, gyda chymorth iaith ychwanegol mewn grwpiau llai i'r rhai fydd angen hynny. Mae disgyblion sydd wedi eu datgan ar gyfer anghenion addysg arbennig yn derbyn y mewnbwn sy'n unol a'r anghenion hynny.

Disgyblion ag anabledd corfforol

Er yn gyfyng, mae mynediad yn bosib i'r holl ardaloedd dysgu - ag eithrio dwy ystafell ar lawr ucha'r ysgol. Cymhellir pob disgybl, adeg cylch, storiau, a grwpiau bychain, i barchu pob aelod o'r dosbarth boed ag anghenion arbennig neu beidio.

Y Maes Llafur

Wrth reswm, sail y Maes Llafur ydyw'r Cwricwlwm Cenedlaethol (yn cynnwys A.G.). Ond ein bwriad ni yw cynnig ystod eang o brofiadau i'r plant o fewn a thu allan i fframwaith y Cwricwlwm. Mathemateg, Cymraeg a Gwyddoniaeth yw'r pynciau craidd - ac ychwanegir Saesneg atynt yn yr Adran Iau. Y Pynciau sylfaen yw Daearyddiaeth a Hanes, Celf a Thechnoleg, Cerdd ac Addysg Gorfforol. Mae copiau o'r dogfennau swyddogol ar gael yn yr ysgol.

Y Cyfnod Sylfaen

Yn y Meithrin a'r Dosbarth Derbyn mae'r holl bwyslais ar ddysgu trwy wneud- datblygu iaith llafar, a dysgu sgiliau sylfaenol a'r amrywiaeth o brofiadau ymarferol a chreadigol. Mae bwrlwm gweithgareddau'r Cyfnod Sylfaen yn ymestyn ac yn ymhelaethu ar hyn. Mae'r cyfan yn seiliedig ar gyfres o themâu lle mae'r pynciau'n plethu at ei gilydd.

Bydd y syniadau hyn yn amlwg yn yr Adran Iau hefyd, ond ar yr un pryd bydd mwy a mwy o ddarnau o waith o reidrwydd yn deillio o ffynonellau mwy unigol neu arbenigol eu natur. Bydd cyfresi yn bwysig mewn rhai pynciau, ond dim ond mewn cysylltiad â chydberthynas ag agweddau eraill o fewn pwnc unigol ac ar draws y cwricwlwm. Nid ydym yn canolbwyntio ar ddim ond yr un dull o weithio - amrywiaeth yw'r allwedd sy'n arwain at ddeall.

Gosodir gwaith cartref, ac o bryd i'w gilydd bydd gofyn i blentyn wneud rhywfaint ychwanegol wedi oriau'r ysgol - darllen llyfr, dysgu ar gof, chwilio am wybodaeth neu greu rhywbeth. Disgwylir i'r disgybl ymateb i'r her yma, a gofynnwn am eich cydweithrediad yn hyn o beth. Mae gan bob disgybl lyfr Cyswllt. Disgwylir i'r disgybl ddod a'r llyfr Cyswllt i'r ysgol yn ddyddiol. Mae lle yn y llyfr i'r athrawon, rhieni a'r disgyblion rhoi sylwadau yn ôl yr angen.

Yn y ddwy flynedd olaf mae darnau o'r Maes Llafur yn seiliedig ar gyfnodau allan o'r ysgol ar gyrsiau. Eto, mae disgwyl bod pob disgybl yn mynychu'r cyrsiau hyn - a lle bo gwir anhawster i dalu am hyn, mae'n bosib y bydd cronfeydd eraill ar gael i helpu.

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

Mae cynllun 'Dyfal Donc' ar waith ar waelod yr Adran Iau, gyda phartneriaid yn darllen gyda'r plant. Bellach, mae'r Gymraeg ac yn Saesneg.

Technoleg Gwybodaeth

Y mae cyfrifiadur ymhob dosbarth ac rydym yn ehangu'r rhwydwaith er mwyn manteisio ar bwerau ychwanegol. Defnyddir hwy mewn sefyllfaoedd amrywiol wrth weithio ar draws y cwricwlwm. Byddwn hefyd yn gwneud defnydd o bob math o offer clywedol - fideo, tap casét, ac ati.

Addysg Gorfforol

Yn Ysgol Iolo Morganwg bwriad gwersi Addysg Gorfforol yw cyflwyno amrywiaeth o weithgarwch symudol i'r plant fydd yn eu gwneud yn fwy ymwybodol o'r gallu corfforol sydd ganddynt. Yn ystod y gaeaf bydd y rhaglen yn cynnwys symudiadau gymnasteg sylfaenol, dawns a sgiliau chwaraeon. Yn yr haf treulir mwy o amser allan yn yr awyr agored yn gweithio ar y rhaglen chwaraeon. Mae tir-glas ein hysgol yn adnodd ardderchog i Feithrin sgiliau addysg gorfforol.

O flwyddyn 3 ymlaen ceir amrywiaeth o chwaraeon timau tymhorol ynghyd a gweithgareddau dan do. Ym mlwyddyn 5 daw cyfle i ddilyn gwersi nofio a beicio.

Lle bo'n briodol bydd yr ysgol yn manteisio ar weithgareddau rhwng ysgolion, - cystadlu yn y gala nofio, cyfarfodydd athletau a nifer o gystadlaethau'r Urdd.

Drwy'r cyfan, pwysleisir ymarferion diogel ac effeithiol, ynghyd a glendid personol. Byddwn yn disgwyl i'r plant newid i ddillad ac esgidiau addas ar gyfer y gwersi Addysg Gorfforol - gan gydymffurfio a chyfundrefn y wisg ysgol. Ni chaniateir dillad sydd yn rhy llachar/amryliw nac yn rhy llaes, na gemwaith na thlysau ychwaith. Bydd yr athrawon hefyd yn pwysleisio'r manteision iechyd sy'n dilyn o ymarfer corfforol rheolaidd.

Cerddoriaeth

I'r Babanod, daw llawer o brofiadau cerddorol iddynt - drwy ganu a dysgu rhigymau, o fand taro, gwersi dawns, ac o wrando ar raglenni radio. Bydd pob plentyn yn yr adran lau yn cael y cyfle i ddysgu darllen cerddoriaeth trwy'r gwersi recorder.

Cynigir hefyd, i'r rhai sy'n dymuno, cyfle i astudio offeryn arall, drwy dalu yn unol a threfniadau Gwasanaeth Cerdd y Sir. Yr offerynnau a ddysgir ar hyn o bryd yw pres, ffidil, allweddellau, soddgrwth, chwythbrennau a thelyn.

Mae Cerddoriaeth yn rhan bwysig o fywyd yr ysgol. Caiff y plant gyfle i gystadlu mewn Eisteddfodau a chymryd rhan mewn cyngherddau fel aelod o gôr yr ysgol, band pres neu hyd yn oed fel rhan o gyfeiliant y dawnsio gwerin.

Addysg Rhyw

Yn ystod Tymor yr Haf dysgir Addysg Rhyw fel pwnc i flwyddyn chwech. Cynhelir cyfarfod gyda rhieni i drafod agweddau o'r cynllun a cheir caniatâd rhieni cyn i'r plant dderbyn gwersi. Mae agweddau'n codi'n naturiol fel rhan o Addysg iechyd ac yng nghyd-destun pynciau eraill yng Ngwyddoniaeth, Addysg Grefyddol ac Addysg Bersonol a Chymdeithasol - megis gofal am ein cyrff, atgenhedlu, bwyta'n iach, tyfiant a newid, diogelwch personol a'n perthynas a phobl eraill. Mae gan rieni yr hawl I dynnu eu plant o addysg rhyw pe dymunent.

Addysg Grefyddol

Mae'r Ysgol yn dilyn trefn sydd yn Gristnogol mewn egwyddor, ond heb fod yn enwadol mewn unrhyw ffordd. Byddwn yn talu rhywfaint o sylw i grefyddau a chredoau eraill. Os dymunant, gall rieni ymneilltuo plentyn rhag gwersi o'r fath. Mewn sefyllfa fel hyn ni ddarperir unrhyw drefniant arall ar eu cyfer.

Disgyblaeth

Yn nwylo'r Pennaeth a'r Llywodraethwyr mae'r cyfrifoldeb am ddisgyblaeth yn yr Ysgol. Dylid trafod unrhyw gwyn gyda'r Pennaeth yn y lle cyntaf. Yna, os nad oes cytundeb, gellir apelio at y Llywodraethwyr. Mae gan y Corff yma'r hawl i eithrio plentyn am gyfnod, neu'n barhaol hyd yn oed, mewn achosion difrifol.

Disgwylir i bob disgybl ymddwyn yn yr Ysgol, ac oddi allan os ar weithgaredd sy'n ymwneud â'r Ysgol, mewn modd sydd yn synhwyrol, yn rhesymol ac yn ddiogel ar bob adeg. Er nad yw'n cyfrifoldeb na'n awdurdod cyfreithiol yn ymestyn, fel arfer, y tu hwnt i ffiniau nac oriau'r Ysgol, eto yr ydym yn teimlo y gallwn

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

bo hynny'n berthnasol ac yn ddymunol.

Wrth gyrraedd yn y bore rhaid i ddisgybl ddod yn syth i fuarth yr Ysgol heb loetran y tu allan i'r gât. Unwaith yno, ni chaniateir i blentyn adael y safle heb ganiatâd un o'r athrawon. Disgwylir i blant gerdded o fewn yr adeilad - a hynny ar y chwith, un tu ôl y llall, heb wthio na rhuthro - er mwyn diogelwch pawb. Anogwn i bob plentyn ddangos parch tuag at oedolyn - ac i ddilyn unrhyw gyfarwyddyd a roddir iddynt gan aelod o'r Staff - boed athro neu beidio.

Gweithgareddau ac Ymweliadau

Yn ystod y flwyddyn ceir cystadlaethau pêl-rwyd, pêl-droed, rygbi, nofio a thraws-gwlad. Mae aelodau'n cael cystadlu hefyd yn yr Eisteddfod Gylch, gyda'r rhai Lwyddiannus yn ymddangos wedyn *yn* yr Eisteddfod Sir neu, hyd yn oed, yn y Genedlaethol. Bydd rhai yn mynd i'r "Jambori" a digwyddiadau tebyg, ac mae cyfle i'r rhai hyn fynd i wersyll Llangrannog yn yr haf.

Trefnir cwrs preswyl i ddisgyblion Bl 5 a 6 yn Llangrannog yn ystod tymor yr Hydref sy'n cwmpasu agweddau o ddiwylliannau Cymreig a Daearyddol. Mae'r cwrs yma'n ffurfio rhan hanfodol bwysig o'r cwrs addysg, ac yn derbyn cefnogaeth lwyr y Llywodraethwyr. Lle bo anhawster i dalu, mae'r ysgol yn gallu chwilio am gymorth ar eich rhan.

Credwn ym mhwysigrwydd profi theatr fyw. Ceisiwn ddenu cwmnïau Theatr-mewn-addysg i'r ysgol, a threfnu i'r plant fynd i wylio perfformiadau hefyd.

Cynhelir dathliad Nadolig pob blwyddyn, ac yn aml fe fydd cyngerdd ar ryw adeg arall hefyd. Daw Siôn Corn ar ymweliad i'n parti Nadolig i ddosbarthu anrhegion i'r plant.

Adeg y mabolgampau yw'r haf- mae pob plentyn yn cymryd rhan yn rhai'r ysgol, ac fe fydd rhai o'r Adran Iau hefyd yn cystadlu ym mabolgampau'r Fro.

Mae'r ffotograffydd yn ymweld â'r ysgol dwywaith y flwyddyn - yn nhymor yr hydref i dynnu lluniau teuluoedd ac unigolion, ac yn nhymor yr haf i dynnu lluniau'r dosbarthiadau a'r timoedd.

Daw ymwelwyr i siarad â'r plant ar adegau yn ystod y flwyddyn am nifer o resymau. Gall fod yn weithgaredd dosbarth, neu'n ysgol-gyfan, fel ar adeg y Cynhaeaf pan fyddwn fel arfer yn casglu at achos teilwng. Bydd ymweliadau eraill i lefydd sy'n gysylltiedig â gwaith y dosbarth.

Cynhelir ffeiriau llyfrau yn ystod y flwyddyn - llyfrau Cymraeg cyn y Nadolig a Saesneg yn yr haf. Gwerthir llyfrau hefyd drwy'r clwb 'Sbondonics'. Bwriedir cystadlu yn y Cwis Llyfrau yn flynyddol, ac yng nghystadleuaeth Rheolau'r Ffordd Fawr yn ogystal.

Mae Clwb Chwaraeon, Iaith, Mathemateg, a Dawnsio Gwerin ar adegau. Trefnir Clwb Gwyddoniaeth i bawb o flwyddyn 1 i flwyddyn 6, ond ar adegau gwahanol o'r flwyddyn ar gyfer plant o wahanol oed.

Cyswllt Uwchradd

Mae Ysgol Iolo Morganwg yn naturiol yn bwydo Ysgol Gyfun Bro Morgannwg. Cadwn gysylltiadau agos ac amrywiol rhyngom ac rydym yn gweithio i atgyfnerthu ac ehangu'r berthynas. Daw'r Pennaeth ac aelodau eraill o'r staff atom o bryd i'w gilydd, i siarad â'r disgyblion a gyda'r rhieni. Bydd cyfle i'n plant ymweld â'r ysgol ac ymuno yn y cystadlaethau chwaraeon. Yn eu blwyddyn olaf caiff Blwyddyn 6 fynd yno ar am ddiwrnodau penodol hefyd.

Hyfforddiant Mewn-Swydd (HMS)

Yn ystod y flwyddyn cynhelir cyrsiau hyfforddiant mewn swydd i'r Staff ac ar saith niwrnod ni fydd ysgol i'r plant wrth i'r athrawon fynychu hyfforddiant mewnol/allanol ac ymuno a staff ysgolion eraill o fewn y Sir. Yn ychwanegol, trefnir hyfforddiant ychwanegol i unigolion yn unol â'u cyfrifoldebau penodedig yn yr ysgol.

Moddion/ "Inhalers"

Er mwyn sicrhau diogelwch y plant mae gan yr ysgol bolisi ynglŷn â meddyginiaeth (gan gynnwys eli). Yn arferol, ni ddylai unrhyw ddisgybl gymryd unrhyw feddyginiaeth yn ystod oriau'r ysgol. Lle bo gwir angen, dylai'r rhiant neu warchodwr ddefnyddio ffurflen swyddogol yr ysgol i nodi manylion y driniaeth, a dilyn y canllawiau a nodir yno. Bydd gan yr aelod o'r staff yr hawl i gytuno i weithredu neu i beidio, ond ni chaniateir i aelodau'r staff fod yn gyfrifol am anghenion meddygol plant.

Caniateir 'inhalers' fodd bynnag, ar yr amod fod yr athrawon wedi eu hysbysu yn ysgrifenedig o ar defnydd priodol. Cedwir hwy mewn man priodol gan y staff.

Pan fo hi'n heulog, dylid darparu het ac eli haul, er *mwyn* gwarchod y plentyn.

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

Casglu pethau

O bryd i'w gilydd, fe fydd yr ysgol yn casglu eitemau at achosion haeddiannol, - e.e. alwminiwm ar gyfer ei ailgylchu, stampiau post, ac ati. Rydym yn frwdfrydig lawn i helpu achosion da, felly gwerthfawrogwn gydweithrediad rhieni yn ystod yr adegau hyn.

Y dyddiau hyn mae nifer fawr o fusnesau yn awyddus i gynnig llyfrau neu adnoddau drwy gasglu eu tocynnau arbennig. Rydym yn hapus i fod yn rhan o ymgyrchoedd tebyg sydd o fudd i'r ysgol.

Polisi Dim Ysmygu

Does dim ysmygu ar dir yr ysgol ar unrhyw adeg.

Parcio
Am resymau diogelwch mae'r Llywodraethwyr a'r Heddlu yn gofyn i'r rhieni sy'n gollwng a chasglu eu plant o'r ysgol barcio i ffwrdd o fannau casglu'r bysiau ar bob adeg, ac i barcio ar un ochr o'r stryd yn unig. Dynodwyd y maes parcio ar gyfer staff yn unig.

Trefniadau ar gyfer Cau'r ysgol yn ddirybudd

Mewn achosion fel tywydd gwael gall yr ysgol orfod cau heb lawer o rybudd. Fe fyddwn:

- yn cysylltu yn gynnar yn y bore gyda'r rhaglenni radio
- yn ffonio rhieni yn uniongyrchol neu
- yn ffonio'r rhif cyswllt argyfwng yr ydych wedi ei nodi

Gan fod hyn yn cymryd tipyn o amser hwyrach y bydd yn rhaid i ni ofyn i riant arall gysylltu a chi gofyn i riant arall i ofalu am eich plentyn, pan mae gennych drefniant o'r fath

Mae'n ddyletswydd arnoch chi fel rhieni :

- sicrhau fod eich rhifau argyfwng presennol gan yr ysgol
- bod yn barod i helpu drwy ffonio eraill
- bod yn ymwybodol y gall sefyllfaoedd o argyfwng godi, fel sy'n digwydd pan fydd rhagolygon o dywydd eithafol.

Trefniadau Ar Gyfer Cwynion

Dylid mynd a phob *cwyn* at *y* prifathro yn y lle cyntaf. Os nad ydych yn fodlon, neu os yw'r cwyn yn erbyn y pennaeth yna dylai gael ei anfon yn ysgrifenedig at Gadeirydd y Llywodraethwyr, Yna caiff ei drafod gan y Pwyllgor Cwynion. Os bydd y canlyniad yn anfoddhaol, neu os yw'r cwyn yn erbyn y Llywodraethwyr, rhaid i'r mater gael ei gyfeirio'n ysgrifenedig at y Cyfarwyddwr Addysg, Swyddfeydd Dinesig, Y Barri.

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image